



GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG
CANLLAWIAU
BLAENDALIADAU/FFIOEDD I AWDURON A DARLUNWYR

1 AMCANION

- Mae'r Cynllun Blaendaliadau/Ffioedd i Awduron a Darlunwyr yn galluogi cyhoeddwr yng Nghymru i gomisiynu llyfrau eang eu hapêl a fydd o gymorth iddynt gynyddu gwerthiant, targedu marchnadoedd newydd a datblygu eu rhaglenni cyhoeddi i'r dyfodol yn eu cyfanrwydd. Prif nod y cynllun yw darparu blaendal ar freindal i awduron, ond gellir ei ddefnyddio hefyd i ddarparu ffioedd untro i gyfranwyr cyfrolau aml-awdur ac i gefnogi comisiynu darluniau. Rhoddir blaenoriaeth i awduron/darlunwyr sydd â hanes profedig o gyhoeddi a gwerthu, ond nid yw hyn yn atal cyhoeddwr rhag ymgeisio ar ran awduron/darlunwyr newydd sydd â photensial penodol. Rydym yn croesawu ceisiadau am lyfrau sy'n helpu i gynyddu amrywiaeth yn y ddarpariaeth sydd ar gael, yn enwedig gwaith sy'n cyfleu profiadau bywyd awduron du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gweinyddu cynllun grant comisiynau ar wahân ar gyfer awduron Cymraeg, y mae canllawiau ar gael ar ei gyfer.

2 CYMHWYSTER

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?

Mae'r cynllun hwn yn agored i gyhoeddwr yng Nghymru sydd â rhaglen gyhoeddi reolaidd neu gynlluniau ymarferol i sefydlu rhaglen o'r fath. Nid oes hawl i awduron wneud cais.

Pa awduron a llyfrau y gellir eu comisiynu?

Gellir cefnogi ystod eang o awduron a llyfrau o dan y cynllun hwn. Mae'r rhestr a ganlyn yn rhoi'r prif gategoriâu cymwys. Mae'n bosibl y gellir ariannu teitlau mewn categorïau eraill:

- os ydynt yn debygol o greu refeniw sylweddol a fydd yn galluogi cyhoeddwr i fuddsoddi yn ei raglen ysgrifennu Saesneg yng Nghymru *ac/neu*
- os oes diddordeb Cymreig sylweddol iddynt.
- Celfyddyd a phensaerniaeth
- Cofiannau
- Llyfrau plant
- Llyfrau comics a nofelau graffig
- Coginio
- Hanes diwylliannol
- Twristiaeth ddiwylliannol (ond nid arweinlyfrau)
- Materion cyfoes
- Ffuglen
- Hanes (ond nid hanes lleol)
- Llenyddiaeth
- Cerddoriaeth, llwyfan a sgrin
- Ffotograffiaeth
- Cyfeirlyfrau
- Crefydd a materion ysbrydol
- Natur
- Chwaraeon
- Teithio

Nid yw'r categorïau canlynol yn gymwys am gymorth fel arfer.

- Llyfrau cyfeiriadau, dyddlyfrau, dyddiaduron, ayb
- Creiriau ac eitemau casgladwy – canllawiau i ddefnyddwyr
- Adeiladu
- Busnes
- Tasgau'r cartref (DIY)
- Addysg: dulliau a deunyddiau dysgu (ac eithrio rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ysgrifennu Saesneg yng Nghymru)
- Teulu
- Arian
- Gemau a phosau
- Arweinyfrau
- Iechyd a ffitrwydd
- Gwyliau
- Cartref a gardd
- Hobïau
- Ieithoedd
- Y gyfraith
- Ffordd o fyw
- Hanes lleol
- Mapiau ac arweinyfrau
- Hunan-gymorth
- Llawlyfrau technegol

Nid yw'r naill na'r llall o'r rhestr uchod yn gwbl gynhwysfawr. Lle bo ansicrwydd a yw gwaith yn gymwys, gofynnir i gyhoeddwr drafod eu prosiectau gydag Adran Datblygu Cyhoeddi y Cyngor Llyfrau cyn cyflwyno cais.

Er mwyn osgoi achosion o ariannu dwbl, wrth ddyfarnu ariannu Blaendal i Awduron bydd yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi a'r Cyngor Llyfrau yn ystyried y cwestiynau canlynol:

- A yw'r awdur wedi derbyn cyflog amser llawn er mwyn gweithio ar y deunydd sy'n cael ei gyhoeddi?
- A gafodd unrhyw fath o gydnabyddiaeth ariannol, megis cyfnod o absenoldeb sabothol â thâl, ariannu grant (o ffynhonnell heblaw'r Cyngor Llyfrau), ysgoloriaeth, bwrsariaeth neu wobwr ariannol ei dyfarnu er mwyn gweithio ar y deunydd a baratowyd ar gyfer y prosiect cyhoeddi?
- A oes ffynhonnell o ariannu megis y rhai a restrir uchod ar gael ar gyfer y gwaith arfaethedig?
- A oes cysylltiad rhwng y gwaith sydd i'w gyhoeddi â'r swydd a ddelir gan yr awdur?
- Os yw'r awdur yn cael ei gyflogi gan brifysgol, a fydd y cyhoeddiad arfaethedig yn cael ei gyflwyno ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)?
- A yw'r gwaith wedi'i gwblhau y tu allan i oriau gwaith neu yn ychwanegol i'r cyfrifoldebau disgwylidig sy'n gysylltiedig â swydd?
- Oni bai bod ariannu'n cael ei ddyfarnu a fyddai'r gwaith yn debygol o gael ei gyhoeddi (o gwbl/yng Nghymru)?
- A yw'r cais yn cyflwyno achos digonol cryf am yr angen i ariannu?

Os bydd yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi o'r farn bod y gwaith wedi cael ei ariannu, neu y dylid ei ariannu, o ffynhonnell ar wahân i'r Cyngor Llyfrau byddant yn ystyried y dewisiadau canlynol:

- Darparu ariannu ar gyfer dim mwy na 50% o'r uchafswm a ganiateir gan y cynllun.
- Mewn achosion lle nad yw'r Is-bwyllgor wedi'i argyhoeddedi bod angen digonol wedi'i amlygu a bod y gwaith wedi derbyn arian sylweddol o ffynhonnell arall yna gellir gwrthod y cais am ariannu.

3 MEINI PRAWF A BLAENORIAETHAU AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Asesir ceisiadau yn ôl y meini prawf a ganlyn:

Llyfr

- apêl debygol y llyfr ar y farchnad;
- ansawdd tebygol cynnwys y llyfr a'r modd y mae wedi'i gynhyrchu;
- y rhagolwg gwerthiant.

D.S. Disgwylir i deitlau a gefnogir o dan y cynllun hwn gyrraedd targed gwerthiant o 2,500 copi o fewn 18 mis. Os bydd cyhoeddwr yn methu cyrraedd y targed hwn yn gyson, bydd hynny'n cael ei ystyried mewn ceisiadau yn y dyfodol.

Cyhoeddwr

- cryfder rhestr a rhaglen gyfredol y cyhoeddwr, yn arbennig ym maes ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.
- y graddau y mae'r rhestr hon yn debygol o elwa o refeniw a gaiff ei greu gan y prosiect arfaethedig;
- parodrwydd y cyhoeddwr i gynnig gostyngiadau cystadleuol.
- hanes gwerthiant blaenorol y cyhoeddwr (ar gyfer llyfrau a dderbyniodd grantiau tebyg).
- hanes y cyhoeddwr o gadw at amserlenni cyhoeddi yn y gorffennol.

Awdur/Darlunydd

- Hanes gyrfar awdur/darlunydd (llwyddiannau/gwerthiant teitlau blaenorol, priodoldeb ar gyfer y comisiwn arfaethedig, safon y gwaith, gallu i gyflwyno gwaith ar amser).
- Y dyddiad cwblhau a ragwelir. Os bydd swm mawr yn cael ei ddyfarnu, fel arfer disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn blwyddyn galendr neu lai.

Perthnasedd i Gymru

- Lle bo pob ffactor arall yn gyfartal, rhoddir blaenoriaeth i brosiectau'n cynnwys awduron a darlunwyr sy'n Gymry neu'n byw yng Nghymru, a/neu lyfrau am destunau Cymreig.

4 Y GRANT

- Cyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer y cynllun hwn yw oddeutu £50,000.
- Uchafswm y grant ar gyfer teitl unigol fydd £10,000. Gall y grant fod yn 100% o'r blaendal/ffi arfaethedig. Gall y ffi a delir i awdur fod yn uwch na'r taliadau breindal arferol/disgwyliedig ar gyfer y rhediad argraffu cyntaf.
- Fel arfer, telir y grant fel blaendal yn erbyn breindal, ond bydd hawl gan gyhoeddwr hefyd i wneud cais am daliad untro ar gyfer rhai prosiectau lle bo hynny'n briodol (e.e. cyfrolau gan fwy nag un awdur, neu i gomisiynu darlunwyr).
- Ni chaniateir i'r grant gyfrannu at ddim heblaw ffi/blaendal awdur/darlunydd; nid yw costau ar gyfer ymchwil neu gostau eraill yn gymwys, er y bydd hawl gan yr awdur/darlunydd i ddefnyddio ei flaendal neu ffi ar gyfer costau o'r fath.
- Bydd y cyhoeddwr yn gyfrifol am lunio cytundeb priodol a thalu'r awdur/darlunydd y byddant yn ei gomisiynu. Bydd gan y cyhoeddwr hawl i drafod y cais am grant gyda'r awdur (ac fe'u cynghorir i wneud hynny) ond dylent egluro mai i'r cyhoeddwr y mae'r grant yn daladwy ac y dylai pob cysylltiad cyhoeddwr-awdur gael ei nodi yn y cytundeb yn ôl arfer cyffredin y diwydiant. Mae taflen gynghori ar gyfer awduron, sy'n amlinellu natur y grantiau hyn, ar gael fel atodiad i'r canllawiau hyn a gellir ei chopio a'i dosbarthu i awduron sydd â diddordeb.
- Dylai'r cyhoeddwr sicrhau bod y cytundeb gyda'r awdur yn cynnwys amserlen glir ar gyfer cyflwyno'r gwaith ac amserlen dalu. Dylai hefyd gynnwys darpariaeth glir ar gyfer ad-dalu unrhyw flaendaliadau os na fydd y gwaith yn cael ei gyflwyno fel y cytunwyd.
- Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw hawlio unrhyw flaendaliadau yn ôl os bydd unrhyw ddiffyg ar ran yr awdur. Bydd y Cyngor Llyfrau yn hawlio'r cyfan neu unrhyw grantiau a dalwyd i gyhoeddwr mewn achos lle nad yw llyfr yn cael ei gyhoeddi oherwydd nad yw'r awdur wedi cyflwyno teipysgrif orffenedig.
- Fel arfer **nid** yw llyfrau a gefnogir trwy'r cynllun hwn yn gymwys am gymorth trwy gynlluniau Rhaglen Gyhoeddi Refeniw neu Grant Llyfrau Llenyddol Unigol. Y rheswm dros hyn yw y disgwylir i werthiant fod yn uwch na chostau cynhyrchu. Er hynny, mae'n bosibl y bydd modd gwneud cais am gymorth tuag at gostau cynhyrchu (e.e. lle bo'r costau cynhyrchu cychwynol yn uchel iawn) mewn achosion lle mae'r teitl hefyd yn bodloni meini prawf y Grant Llenyddiaeth.
- Bydd llyfrau sy'n derbyn cymorth drwy'r cynllun yn gymwys i dderbyn Grant Marchnata; ond rhaid gwneud cais am y grant hwn ar wahân a bydd lefel grant o'r fath yn dibynnu ar y cynlluniau marchnata a gyflwynir.

- Nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y ceisiadau y caiff cyhoeddwr eu cyflwyno; fodd bynnag, bydd y Cyngor Llyfrau yn ceisio sicrwydd y gall y cyhoeddwr ymgymryd ag unrhyw deitlau o'r fath cyn y dyfernir grant. Mae'n bosibl y bydd perfformiad yn y gorffennol a phrosiectau tebyg sydd ar y gweill yn cael eu hystyried wrth drafod ceisiadau yn y dyfodol.

5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- Rhaid gwneud ceisiadau ar y ffurflen gais [GA AAG (2021)], sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Dylai ceisiadau gynnwys y dogfennau ategol a ganlyn:
 - sampl o waith yr awdur(on)/darlunydd (darlunwyr) dan sylw (un ai sampl o'r gwaith sydd ar y gweill neu sampl byr o waith cyhoeddedig blaenorol);
 - rhestr lawn o'r teitlau Saesneg a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, wedi eu rhoi mewn grwpiau yn ôl a fu iddynt dderbyn unrhyw fath o grant CLIC neu beidio, a chan gynnwys dyddiadau cyhoeddi. Mae ffurflen ar gael ar gyfer hyn.
 - rhagolwg elw a cholled manwl ar gyfer y llyfr arfaethedig. Mae ffurflen ar gael yn electronig a fydd yn cyfrifo elw/colled yn awtomatig.
- Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Saesneg, sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, fel arfer ym mis Chwefror, mis Mai, mis Gorffennaf a mis Hydref. Gellir cael y dyddiadau cau o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon, neu o wefan y Cyngor Llyfrau.
- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol. Dylai cyhoeddwr ganiatáu digon o amser rhwng cyfarfod yr Is-bwyllgor a'r dyddiad cyhoeddi a gynlluniwyd (chwe mis) fel y byddant yn osgoi ymrwymo i gyhoeddi cyn clywed canlyniad eu cais. Os bydd y dyddiad cyhoeddi'n rhy agos at ddyddiad cyfarfod yr Is-bwyllgor, gallai'r Is-bwyllgor dybio nad oes angen gwirioneddol am gymorth grant.
- Rhaid i bob cyhoeddwr sy'n derbyn Grant Blaendaliadau/Ffioedd i Awduron a Darlunwyr gydymffurfio ag Amodau Cymorth Grant y cynllun hwn, gweler [GT&C AAG (2021)], gan gynnwys darparu gwybodaeth lyfryddol yn brydlon a sicrhau bod teitlau sy'n derbyn cymorth grant ar gael trwy'r sianeli masnach arferol (gan gynnwys Canolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru). Gofynnir i gyhoeddwr ymgyswddo â'r ddogfen hon cyn bwrw ymlaen â chais.

6 TALU GRANTIAU

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n rhyddhau'r grant i'r cyhoeddwr yn y camau canlynol. Bydd awduron/darlunwyr yn derbyn taliad gan y cyhoeddwr yn unol â'r amserlen dalu a roddwyd yn eu cytundeb, a ddylai adlewyrchu'r camau isod. Rhaid cyflwyno ffurflen hawlio ar gyfer pob cam, ynghyd â'r dogfennau priodol. Mae'r ffurflenni hawlio ar gael o'r cyfeiriad isod.

- **Taliad 1:** wrth lofnodi'r cytundeb
Bydd y Cyngor Llyfrau yn rhyddhau taliad wedi iddo dderbyn ffurflen hawlio [GC AAG (2021)] ynghyd â chopi o'r cytundeb wedi'i lofnodi gan y ddau barti. Rhaid i'r cytundeb gynnwys amserlen glir ar gyfer cyflwyno'r gwaith a nodi'r swm sy'n daladwy ym mhob cam. **Rhaid cyflwyno copi o'r cytundeb i Gyngor Llyfrau Cymru o fewn tri mis o'r llythyr cynnig grant. Gall methu â darparu cytundeb wedi'i lofnodi o fewn yr amserlen hon arwain at leihau'r grant. Os yw'r cytundeb heb ei dderbyn o fewn chwe mis l'r cynnig o grant, yna bydd y grant yn cael ei ganslo.**
- **Taliad 2:** pan gyflwynir teipysgrif orffenedig
Bydd y Cyngor Llyfrau yn rhyddhau taliad wedi iddo dderbyn ffurflen hawlio [GC AAG (2021)] yn tystio bod y cyhoeddwr wedi derbyn y deipysgrif orffenedig (os yw'r cyhoeddwr yn dewis, gellir hawlio'r taliad hwn cyn i'r gwaith golygu terfynol gael ei gwblhau). Yn y cam hwn dylai'r

cyhoeddwr gwblhau'r rhan o'r ffurflen hawlio sy'n cadarnhau'r amserlen gyhoeddi, y fformat a'r rhediad argraffu bwriedig. Os yw'n berthnasol, dylid cynnwys copi wedi'i lofnodi o'r cytundeb cyhoeddi hefyd.

- **Taliad 3:** Adeg cyhoeddi
Bydd y Cyngor Llyfrau yn rhyddhau taliad wedi iddo dderbyn ffurflen hawlio [GC AAG (2021)] ac archebu pedwar copi cyfarch o'r llyfr o'r Ganolfan Ddosbarthu.

7 NEWIDIADAU I'R CAIS GWREIDDIOL

Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i newid swm y grant sy'n daladwy os bydd y manylion yn y ffurflen hawlio yn sylweddol wahanol i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cais gwreiddiol neu os nad yw'r cyhoeddwr yn cydymffurfio ag amodau'r cymorth grant [GT&C AAG (2021)]. Rhaid i'r cyhoeddwr nodi unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol ar y ffurflenni hawlio perthnasol, a dylai drafod unrhyw newidiadau sylweddol (e.e. cynnwys, cyfranwyr arfaethedig, rhediad argraffu) gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi **ymlaen llaw**.

8 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn i gyhoeddwr ddarparu ffigurau gwerthiant a refeniw gwerthiant, wedi'u diweddarau'n rheolaidd, ar gyfer teitlau sy'n derbyn cefnogaeth o dan y cynllun hwn ac mae'n bosib y bydd hefyd angen copïau o adolygiadau i helpu i fonitro ansawdd. Yn y tymor hir, rhoddir ystyriaeth hefyd i fanteision yr elw i raglen gyhoeddi'r cyhoeddwr ym maes ysgrifennu Saesneg yng Nghymru.

NODIADAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN GAIS (fel y cyfeirir atynt ar y ffurflen)

1. **Categori** Nodwch gategori'r llyfr y bwriadwch ei gyhoeddi. Y cynllun dosbarthu safonol ar gyfer masnach lyfrau'r DU a marchnadoedd eraill yn yr iaith Saesneg yw cynllun Standard Subject Categories & Qualifiers, Book Industry Communication (BIC), ac mae rhestr gyflawn o'r categorïau ar gael yn www.bic.org.uk/productinfo-subjectcat.html. Mae'r prif benawdau categori perthnasol fel a ganlyn, ond dylech edrych ar y rhestr lawn am fwy o fanylion:

A	Y Celfyddydau	G	Cyfeirlyfrau, Gwybodaeth ac Astudiaethau Rhyngddisgyblaethol
B	Bywgraffiadau a Storiâu Gwir	H	Dyniaethau (Hanes, Archaeoleg, Athroniaeth, Crefydd)
C	Iaith	J	Cymdeithas a Gwyddorau Cymdeithasol
D	Llenyddiaeth ac Astudiaethau Llenyddol	W	Ffordd o Fyw, Chwaraeon a Hamdden
F	Ffuglen ac Eitemau Cysylltiedig	Y	Y Plant, Oedolion Ifainc a Deunydd Addysgol
2. **Fformat** Dylai fformat y llyfr y bwriadwch ei gyhoeddi fod yn addas ar gyfer categori'r llyfr a dilyn yr hyn sy'n arferol yn y diwydiant, e.e. 'fformat A', tudalennau wedi'u torri i faint 178 x 111 mm (heb eu gwnïo), yw fformat arferol llyfrau clawr papur ar gyfer y farchnad dorfol; 'fformat B', tudalennau wedi'u torri i faint 198 x 126 mm (heb eu gwnïo), yw'r fformat arferol i lyfrau clawr papur nad ydynt yn ffuglen ac ar gyfer ffuglen lenyddol. Os ydych yn ansicr, cysylltwch gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu i lyfrau â fformatau amhriodol neu safonau cynhyrchu gwael.
3. **Dyddiad Cyhoeddi** Rhowch ddyddiad cyhoeddi llawn. Gallwch newid hwn yn ddiweddarach os bydd angen, cyn belled ag y rhoddir rhybudd digonol (gweler Amodau'r Grant). Mewn achosion lle rhoddir y mis a'r flwyddyn yn unig, bydd y Cyngor Llyfrau yn defnyddio'r 15fed o'r mis fel dyddiad rhagosodedig.

4. **Rhagolwg Elw a Cholled** Nod y cynllun hwn yw helpu cyhoeddwr i gomisiynu neu gynnig am deitlau allai greu incwm gwerthiant sylweddol. Oherwydd hynny dylid cwblhau rhagolwg elw a cholled manwl ar gyfer pob teitl fel y gall y cyhoeddwr, yn ogystal â'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi, amcangyfrif pa mor broffidiol fydd y teitl dan sylw. Mae ffurflen ar gael ar ffurf dogfen Excel sy'n cynnwys cyfrifo maint yr elw'n awtomatig. Dylai'r wybodaeth gwyno gael ei chynnwys yn y man priodol ar y ffurflen gais hefyd.
5. **Perfformiad Blaenorol** Y nod yw arddangos posibiladau gwerthiant da i'r llyfr sy'n cael ei gynnig trwy gyfeirio at dystiolaeth o werthiant teitlau tebyg neu deitlau gan yr un awdur yn y gorffennol.
6. **Cynulleidfa/Marchnad Darged** Mae'n bwysig arddangos gwybodaeth dda am y farchnad ar gyfer y math o lyfr rydych yn ceisio'i hyrwyddo, a dyma'r farchnad y mae'n rhaid i chi ddangos y byddwch yn ei chyrraedd trwy gynnal y gweithgareddau a ddisgrifir yn eich cynllun marchnata.
7. **Gwerth Ychwanegol** Mae'n bwysig fod y cyhoeddwr yn gallu arddangos gwerth ychwanegol i gefnogi'r achos dros ddyfarnu grant. At bwrpas y cynllun hwn, gellir diffinio gweth ychwanegol fel gwella ffigurau gwerthiant (rhoi rhagolygon gwerthiant gyda grant a heb grant), ymestyn rhediad argraffu (rhoi rhediadau argraffu gyda'r grant hwn a hebdo), gwella proffil cyhoeddus y llyfr/gyfres/yr awdur yn sylweddol (sut caiff hyn ei fesur?), neu ganlyniadau tebyg. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi manylion penodol i gefnogi pob agwedd o'r gwerth ychwanegol a ddisgrifir.

Am ffurflen gais a chyngor pellach, cysylltwch â:

**Adran Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 2JB**
e-bost: english.grants@books.wales

MAE'R DDOGFFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

AMODAU A THELERAU CYFFREDINOL:
BLAENDALIADAU NEU FFIOEDD I AWDURON A DARLUNWYR

- 1 Cynigir grant ar sail y wybodaeth a geir yn y cais, ac yn unrhyw ohebiaeth ategol. Os na chyflawnir y dibenion y rhoddwyd y grant eu cyfer o fewn amser priodol, neu os na chydymffurfiwyd â'r amodau perthnasol, gallai'r Cyngor Llyfrau ofyn i'r sawl a dderbyniodd y grant ddychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant allai fod wedi'i dalu.
- 2 Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw cytuno ar gytundeb(au) manwl a chynhwysfawr gyda'r awdur/golygydd/darlunydd yn unol â safonau'r diwydiant, gan gynnwys telerau comisiynu a chyhoeddi a thalu.
- 3 Dylai awduron gael eu talu'n brydlon yn unol â'r amserlen ar gyfer talu yn y cytundeb. Ar ôl i'r gwaith gael ei gyhoeddi, dylai'r awdur dderbyn datganiad ariannol a thâl, os yw hynny'n berthnasol, o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai cytundeb yr awdur nodi pryd y gellid disgwyl datganiadau breindal a thâl felly.
- 4 Rhaid cyflwyno copi o'r cytundeb wedi ei lofnodi gan bawb perthnasol i Gyngor Llyfrau Cymru fel prawf o'r comisiynu **o fewn tri mis o'r llythyr cynnig grant** gan y Cyngor Llyfrau. Nid yw'r Cyngor Llyfrau'n gyfrifol am delerau'r cytundebau hyn. Bydd y taliad cyntaf yn cael ei ryddhau pan fydd copi o'r cytundeb a ffurflen hawlio wedi eu. Os yw cais am y taliad cyntaf yn dal heb ei dderbyn o fewn chwe mis, yna bydd y grant yn cael ei ganslo, er y gall y cyhoeddwr ailymgeisio am grant os yw'r teitl yn dod yn hyfyw yn ddiweddarach.
- 5 Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau fod yr awdur/darlunydd yn cwblhau'r gwaith mewn pryd. Rhaid rhoi amserlen waith ac amserlen daliadau gyfatebol realistig ar y ffurflen gais a rhaid i gytundeb yr awdur gynnwys yr un dyddiadau cyflwyno a sbardun i dalu. Dylai'r cytundeb hefyd gynnwys amserlen resymol i'r awdur wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.
- 6 Rhaid i gytundeb yr awdur gynnwys cytundeb clir i ad-dalu unrhyw flaendal cychwynnol os yw'n methu bodloni'r dyddiadau terfynol a gytunwyd. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw hawlio unrhyw daliadau breindal a wnaed yn ôl pe bai'r awdur yn peidio â glynu at y cytundeb.
- 7 Fel arfer bydd disgwyl i'r sawl sydd wedi derbyn y grant ddychwelyd y swm llawn a dderbyniwyd mewn cymorth grant i CLIC pe bai'r awdur yn methu cyflwyno'r deipysgrif **o fewn 18 mis i'r dyddiad cyflwyno** a nodwyd yn wreiddiol yn y cais (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol). Dylai'r cyhoeddwr sicrhau hefyd fod yr hawliad ar gyfer ail daliad y cymorth grant (ar gyflwyno'r deipysgrif gyflawn) yn cael ei wneud o fewn y cyfnod amser hwn.

- 8 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn y grant gydymffurfio ag amodau unrhyw gynllun arall o fewn yr hwn y mae teitlau unigol wedi derbyn cymorth a chydymffurfio hefyd ag unrhyw amodau a gofynion cynllun ychwanegol a nodwyd yn y cynnig grant ffurfiol neu unrhyw lythyr eglurhaol.
- 9 Rhaid argraffu'r gydnabyddiaeth sy'n dilyn ar y ddalen tu ôl i'r ddalen deitl ym mhob llyfr sydd wedi derbyn grant neu y mae staff y cefnogir eu swyddi gan gymorth grant wedi gweithio arno: "The publisher acknowledges the financial support of the Welsh Books Council." Yn ogystal, lle bo logos arianwyr/noddwyr/cefnogwyr eraill yn ymddangos ar y ddalen tu ôl i'r ddalen deitl, ar y clawr neu yn unrhyw le arall yn y llyfr, rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys logo Cyngor Llyfrau Cymru yn ychwanegol at y geiriad a rhoddir uchod. Dylid cydnabod cefnogaeth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru hefyd ym mhob digwyddiad cyhoeddus sydd â'r nod o hyrwyddo neu farchnata teitlau a gefnogwyd. Gallai peidio â chynnwys cydnabyddiaeth briodol arwain at ostyngiad o hyd at 10% yn y grant sy'n daladwy. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn ac unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor mewn unrhyw ffordd i awgrymu fod y Cyngor yn cymryd neu'n derbyn cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau'r sawl sy'n derbyn y grant (gweler rhif 26).
- 10 Fel arfer, yn achos cymorth grant tuag at rith-awdur neu gyfieithwyr, dylai enw'r rhith-awdur neu'r cyfieithydd ymddangos ar y ddalen deitl. Dylai'r cyhoeddwr ymgynghori ag Adran Datblygu Cyhoeddi y Cyngor Llyfrau mewn achosion lle bo amheuaeth.
- 11 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant arddangos rhif ISBN 13-digid a chod-bar cyfatebol ar glawr pob cyhoeddiad.
- 12 Dylid anfon gwybodaeth lyfryddol amserol (gan gynnwys ISBN, teitl, awdur, cyhoeddwr, pris, dyddiad cyhoeddi, categori a disgrifiad byr) i Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau naw mis cyn cyhoeddi neu o fewn pythefnos ar ôl i'r cyhoeddwr dderbyn cynnig grant, pa un bynnag yw'r cyfnod byrraf o'r ddau. Bydd y wybodaeth yma'n cael ei dangos wedyn ar gwales.com.
- 13 Dylid anfon llun o glawr y llyfr (mae drafft da yn dderbyniol yn y lle cyntaf yn hytrach na fersiwn derfynol) i Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf 4 mis cyn cyhoeddi. Dangosir y clawr wedyn ar gwales.com.
- 14 Dylai'r sawl sy'n derbyn y grant ddefnyddio'r ffurflen ar-lein i gyflwyno pob gwybodaeth lyfryddol a lluniau o'r clawr. Mae cyfrinair ar gyfer defnyddio'r ffurflen ar-lein, sydd ar gael trwy gysylltu gyda'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth. Mewn amgylchiadau lle nad yw hyn yn bosibl dylai'r sawl sy'n derbyn y grant drafod hyn gyda'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth a'r Adran Datblygu Cyhoeddi.
- 15 Rhaid i'r cyhoeddwr ddiweddarau pob gwybodaeth sydd am y teitl ar gwales.com (gwybodaeth lyfryddol, disgrifiad byr a llun o'r clawr) yn syth, yn ôl fel y bydd unrhyw newidiadau'n digwydd cyn ac ar ôl cyhoeddi, hyd nes bod y llyfr allan o brint. Dylai'r sawl sy'n derbyn y grant wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol trwy'r ffurflen ar-lein (neu yn ôl fel y bydd y Swyddog Gwybodaeth yn cynghori). Gellir cyflwyno gwybodaeth ychwanegol gan y cyhoeddwr yn electronig yn ôl fel y bydd y cyhoeddwr yn gweld yn dda, gan gynnwys tabl cynnwys, bywgraffiad awdur, dyfyniadau o adolygiadau a manylion gwobrau a enillwyd.

- 16 Yn ogystal â rheoli llif gwybodaeth fanwl gywir i'r fasnach lyfrau, dylai'r sawl sy'n derbyn y grant roi gwybod i'r Adran Datblygu Cyhoeddi am unrhyw oedi o ran y dyddiad cyhoeddi (neu fanylion eraill, e.e. newid teitl) mewn da o bryd ac o leiaf o dri mis cyn y dyddiad cyhoeddi gwreiddiol. Os na chyhoeddir y llyfr o fewn tri mis i'r dyddiad cyhoeddi a roddwyd i'r Adran Datblygu Cyhoeddi, gellir diddymu'r grant yn awtomatig.
- 17 Ni ddylid cyhoeddi llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn ystod mis Rhagfyr ac ni fyddwn yn rhoi grant i unrhyw deitl y trefnwyd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Rhaid i gopïau unrhyw deitlau Tachwedd gyrraedd Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau erbyn y dydd Mercher olaf ym mis Tachwedd. Bydd gostyngiad o £200 yn y grant taladwy i lyfrau a gyhoeddir ym mis Rhagfyr, neu deitlau Tachwedd sy'n cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu ar ôl y dyddiad hwn.
- 18 Rhaid i'r cyhoeddwr roi gwybod i'r Adran Datblygu Cyhoeddi fod y teitl ar gael yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau fel bod yr adran yn medru cymryd pedwar copi yn uniongyrchol o'r stoc).
- 19 **Yn achos unrhyw lyfr sy'n derbyn cymorth grant, dylid rhoi gwybod i'r Cyngor Llyfrau am unrhyw gymorth ariannol a dderbyniwyd tuag at gyhoeddi'r llyfr o unrhyw ffynhonnell heblaw'r Cyngor Llyfrau.**
- 20 Rhaid i'r rheini sy'n derbyn grantiau ddarparu ffigurau gwerthiant wedi'u diweddarau'n rheolaidd ar gyfer teitlau a gefnogir o dan y cynllun hwn, a'r incwm a'r elw y maen nhw'n ei greu. Bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn am y ffigurau hyn o dro i dro fel y bo'n briodol. Mae'r Cyngor Llyfrau'n cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth resymol arall am berfformiad llyfr a dderbyniodd gymorth grant er mwyn mynd ati i werthuso pa mor effeithiol yw cymorth grant a chloriannu gwerth am arian.
- 21 Rhaid i bob llyfr sy'n derbyn grant fod ar gael trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau ar delerau'r Cyngor Llyfrau (fel arfer isafswm archeb o 60 copi'r teitl, ond yn uwch yn aml, neu ar sail gwerthu neu ddychwelyd fel y gallant fod ar gael i fanwerthwyr ar y telerau masnachol arferol.
- 22 Mae'n amod bod cylchgronau trwydded yn cael eu danfon i Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau cyn neu ar yr un pryd â'u bod ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddosbarthwr neu fanwerthwr, neu ar gael mewn lansiad neu ddigwyddiad arall (heblaw am rai sy'n cael eu postio i danysgrifwyr). Y cyhoeddwr sy'n gyfrifol am gludo a chyflenwi cylchgronau'n brydlon.
- 23 Os yw llyfr ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, ac un o'r fersiynau hynny wedi derbyn cymorth grant, yna rhaid i'r ddwy fersiwn fod ar gael trwy'r Ganolfan Ddosbarthu yn unol â'r telerau a nodwyd yn amodau 21 a 22.
- 24 Dylai pob llyfr sy'n derbyn cymorth grant fod mewn print ac ar gael yn gyson yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau am o leiaf un flwyddyn ar ôl cyhoeddi. Os sicheir gwerthu hawliau o fewn y deuddeg mis cyntaf ar ôl ei gyhoeddi y mae'n rhaid cadw teitl â chymorth grant mewn print, dylai'r cyhoeddwr ofyn am gymeradwyaeth ac arweiniad gan Adran Datblygu Cyhoeddi'r Cyngor Llyfrau, neu wynebu'r posibilrwydd o orfod ad-dalu cyfran o'r grant. Os nad yw llyfr ar gael neu allan o stoc yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl ei gyhoeddi, bydd hawl gan y Cyngor Llyfrau i hawlio ad-daliad grant o £1,000 y teitl. Mae cydargraffiadau rhyngwladol a llyfrau tymhorol, er enghraifft rhai llyfrau a gyhoeddir ar gyfer y Nadolig, wedi'u heithrio. Rhaid gofalu nad yw problemau fel rhwymo, er enghraifft, neu rediadau argraffu annigonol yn cael effaith a pheri nad yw llyfr

ddim ar gael. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau bod llyfrau'n cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu mewn da o bryd i fodloni'r amod hwn.

- 25 Ni ddylid gwerthu hawliau DU teitlau a dderbyniodd gymorth grant o fewn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl cyhoeddi heb gytundeb y Cyngor Llyfrau ymlaen llaw.
- 26 Disgwylir i deitlau a gefnogir o dan y cynllun hwn gyrraedd targed gwerthiant 18 mis o 2,000. Os bydd cyhoeddwr yn methu cyrraedd y targed hwn yn gyson, bydd hynny'n cael ei ystyried mewn ceisiadau yn y dyfodol.
- 27 Er mwyn osgoi achosion o ariannu dwbl, wrth ddyfarnu ariannu Blaendal i Awduron bydd yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi a'r Cyngor Llyfrau yn ystyried y cwestiynau canlynol: a yw'r awdur wedi derbyn cyflog amser llawn er mwyn gweithio ar y deunydd sy'n cael ei gyhoeddi? A gafodd unrhyw fath o gydnabyddiaeth ariannol, megis cyfnod o absenoldeb sabothol â thâl, ariannu grant (o ffynhonnell heblaw'r Cyngor Llyfrau), ysgoloriaeth, bwrsariaeth neu wobr ariannol ei dyfarnu er mwyn gweithio ar y deunydd a baratowyd ar gyfer y prosiect cyhoeddi? A oes ffynhonnell o ariannu megis y rhai a restrir uchod ar gael ar gyfer y gwaith arfaethedig? A oes cysylltiad rhwng y gwaith sydd i'w gyhoeddi â'r swydd a ddelir gan yr awdur? Os yw'r awdur yn cael ei gyflogi gan brifysgol, a fydd y cyhoeddiad arfaethedig yn cael ei gyflwyno ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)? A yw'r gwaith wedi'i gwblhau y tu allan i oriau gwaith neu yn ychwanegol i'r cyfrifoldebau disgwylidig sy'n gysylltiedig â swydd? Oni bai bod arianu'n cael ei ddyfarnu a fyddai'r gwaith yn debygol o gael ei gyhoeddi (o gwbl/ying Nghymru)? A yw'r cais yn cyflwyno achos digonol cryf am yr angen i ariannu? Os bydd yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi o'r farn bod y gwaith wedi cael ei ariannu, neu y dylid ei ariannu, o ffynhonnell ar wahân i'r Cyngor Llyfrau byddant yn ystyried y dewisiadau canlynol: Darparu ariannu ar gyfer dim mwy na 50% o'r uchafswm a ganiateir gan y cynllun. Mewn achosion lle nad yw'r Panel wedi'i argyhoeddedi bod angen digonol wedi'i amlygu a bod y gwaith wedi derbyn arian sylweddol o ffynhonnell arall yna gellir gwrthod y cais am ariannu.
- 28 Mae'r Cyhoeddwr ar eu rhan ei hunain (ac eraill) yn cyfamodi gyda'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi a'u holynwyr yn y teitl y bydd ef/hi y Cyhoeddwr bob amser o hyn ymlaen yn diogelu'r Panel ac yn ei ddigolledu rhag pob achos, cost, hawliad a gorchymyn mewn perthynas ag unrhyw weithred allai arwain at dorri cyfreithiau Cymru a Lloegr.

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE